**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**16.02.2023 @7.00pm**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN, PONTRHYDFENDIGAID**

1. **CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
   **Croesawodd y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones, bawb i'r Cyfarfod.**
   Estynnwyd dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Alun Price Jones, a fu'n sâl yn ddiweddar ac wedi treulio cyfnodau'n yr ysbyty.

2. **YN BRESENNOL**
   Cyng. Roland Bago
   Cyng. Mel Briant
   Cyng. Angharad Jones
   Cyng Richard Jones
   Cyng Gareth Owen
   Cyng Elgan Williams
   Eleri Thomas (Clerc)
   Mr Jim Cowie: Cyflwyniad Taith Dyffryn Teifi

3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
   Ymddiheurodd y Cyng. Ieuan Davies, y Cyngh. Alun Price Jones, y Cyngh. Non Jones, y Cyngh. Doug Rowbotham, y Cyngorydd Sirol Ifan Lloyd Davies a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) John Evans am eu hanallu i fynychu'r Cyfarfod.

4. **MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
   Adroddodd SCCH John Evans y problemau canlynol, a oedd wedi codi yn ystod y mis diwethaf:
   **Ymddygiad gwrthgymdeithasol / Aflonyddwch: 2**
   Brynhawn Mercher, 7-02-23 gwelwyd dau gar yn rasio o amgylch maes parcio'r Pafiliwn yn gwneud symudiadau chwildroi a thoesen. Roedd y gofalwr wedi bod mewn cysylltiad â'r ddau yrrwr er mwyn sôn bod aelodau'r cyhoedd yn defnyddio'r maes parcio, gan gynnwys yr Ysgol Feithrin gyfagos. Roedd y gyrrwyr braidd yn ddiystyriol ac yn sarhaus. Cofnodwyd trosedd trefn gyhoeddus DPP/3247/07/02/2023/02/C ac fe wnaeth y gofalwr adrodd y mater at sylw'r heddlu oherwydd consyrn am ddiogelwch disgyblion yr Ysgol Feithrin.

   Ddydd Sul 12-02-23 bu ffrae ar lafar ar Stryd Teifi pan nad oedd modd i breswylydd yrru heibio gan fod un o'r cymdogion yn golchi ei gar ar y ffordd.
   *Bwrgleriaeth : 0
   *Difrod Troseddol : 0
   *Dwyn : 0
   *Trais/ Ymosodiad : 0
   *Galwadau twyll/ sgam :- Dim rhediadau newydd

5. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL A BUDDIANT SY'N RHAGFARNU**
   **Dim wedi'i ddatgan.**

6. **CYFLWYNIAD**
   **Taith Dyffryn Teifi:** Mynychodd Mr Jim Cowie gyfarfod y Cyngor Cymuned yn ystod Ebrill 2022 i wneud cyflwyniad ynglŷn â Thaith Dyffryn Teifi.

Ers hynny roedd *Cymdeithas Taith Dyffryn Teifi* wedi llunio taflen i esbonio a hyrwyddo ei nodau a'i hamcanion. Roedd y Fideo a ddangoswyd ar y noson 16.02.23, wedi cynnig mewnwelediad pellach.
Dilynodd Llwybr Dyffryn Teifi yr Afon Teifi o'i tharddle ym Mhyllau Teifi, Mynyddoedd y Cambria drwy Dregaron, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul, Pont-Tyweli, Cilgerran a gorffen ym Moppet Sands/Llandudoch.
Er bod y llwybr yn gerddedadwy ar hyn o bryd, bydd y lansiad swyddogol yn cymryd lle'n ystod mis Hydref 2023. Ariannwyd y Cynllun gan *Cynnal y Cardi*, *Cyngor Sir Cerdigion* a *Llywodraeth Cymru*.
Gofynnodd Mr Cowie tybed a allai'r Cyngor Cymuned gefnogi'n ariannol y ddarpariaeth o Fwrdd Gwybodaeth yn Ystrad Fflur. *I'w drafod ymhellach.*
Cytunwyd i arddangos y daflen ar Facebook a Gwefan y Cyngor Cymuned.

**Cerflun – Y Pererin**

Lleolwyd y cerflun ar dir preifat heb fod o fewn cyrraedd y cyhoedd heb ganiatâd blaenorol gan y tirfeddiannwr.

**7 . CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 25AIN IONAWR 2023**

**CYNIGIWYD** (Y Cyngh. Richard Jones), **EILIWYD** (Y Cyngh. Gareth Owen) a **PHENDERFYNWYD** bod Cofnodion Cyfarfod y 25ain Ionawr yn gywir arwahân i'r canlynol: **Cofnod: 7.3 Diffibrilwyr o fewn y Pentref**
" Roedd y Cyngh. Ieuan Davies a'r Cyngh.Elgan Williams wedi lleoli'r diffibriliwr a'r blwch newydd yn agos i Deifi Inn, Ffair Rhos"
Dylai ddarllen, " Roedd y Cyngh. Ieuan Davies a'r *Cyngh. Roland Bago* wedi lleoli'r diffibriliwr a'r blwch newydd yn agos i Deifi Inn, Ffair Rhos".
Fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

**8. MATERION YN CODI**

**8.1 Llifogydd Afon Teifi yn ardal y Llew Coch:** Roedd y Cynghorwyr Non Jones, Richard Jones ac Elgan Williams wedi mynychu'r cyfarfod safle ar y 30.01.2023 gyda chynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Mr Daniel Jones. Anfonodd Mr Jones grynodeb o'r hyn a drafodwyd yn ystod y cyfarfod.
"Mae'r sefyllfa yn anodd oherwydd maint yr Afon Teifi o'i gymharu â'r arllwysfa ddŵr arwynebol.
Awgrymwyd y dylid drafod y mater ymhellach â Chyngor Sir Ceredigion. Arweinydd materion yn ymwneud â Draenio'r Tir oedd Annett Birkett
annett.birkett@ceredigion.gov.uk
I ymgymryd â gwaith rheoli coed, roedd angen Caniatad SSSI.
Byddai cwympo coedlannau afon yn y lleoliad hwn yn golygu bod angen i'r Cyngor Cymuned, fel tirfeddiannwr y maes, gyflwyno cais i Gyfoeth Naturiol Cymru am ganiatâd SSSI ar gyfer Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Afon Teifi.
Roedd ffin SSSI ar y pwynt hwn yn dilyn brig sianel glan yr afon gan gynnwys holl goed a llwyni sy'n hongian drosodd.
Atodwyd y ffurflen rhybudd cytundeb SSSI (ffurflen gais) ar gyfer yr Afon Teifi. Fel arall, gellir gwneud cais ar-lein:Natural Resources Wales / Sites of special scientific interest (SSSI): responsibilities of owners and occupiers.
Dylai'r cais am ganiatâd gael ei gefnogi gan gynllun sy'n dangos maint a lleoliad y gwaith arfaethedig, ynghyd â manylebau a manylion methodoleg. Dylai'r manylion hyn hefyd gynnwys sut y gwaredir ar y deunydd torri. Yn dibynnu ar faint y gwaith, gall fod angen arolwg o ddyfrgwn; efallai y bydd ecolegwyr y Cyngor Sir yn gallu rhoi cyngor yn hyn o beth.
Gall caniatâd SSSI gwmpasu sawl blwyddyn ar gyfer ailadrodd gweithrediadau neu gwaith cynnal a chadw dilynol, er bod hyn wedi'i gyfyngu i gyfnod o 5 mlynedd ar hyn o bryd.

Ar gyfer gwaith sy'n cynnwys ailbennu'r bibell i lifo'n gyfochrog â phrif lif yr afon byddai angen FRAP. Gallai hyn fod yn gostus ac nid hwn oedd yr amcan cychwynnol fel y trafodwyd gan aelodau'r cyngor cymuned ar y safle."

**Bu'r Cyngor Cymuned yn trafod y posibilrwydd o dorri 2 goeden er mwyn ceisio datrys ryw ychydig ar y broblem. Bydd angen llenwi Ffurflen Caniatâd SSSI.**

**8.2 Ardal Chwarae Neuadd Pantyfedwen:** Cysylltodd y Cyng. Gareth Owen â Stefano Antoniazzi, Cyngor Sir Ceredigion parthed grantiau posibl. Y Clerc i gysylltu â Stefano Antoniazzi i drefnu cyfarfod safle.

**Yr arwydd parthed gwybodaeth i dwristiaid:** i'w lleoli ar safle'r Neuadd yn ystod y dyfodol agos.

**8.3 Diffibriliwr ger y Teifi Inn, Ffair Rhos**

Bydd y Cyng Ieuan Davies yn trefnu Sesiwn Hyfforddi ar sut i ddefnyddio'r Diffibriliwr yn ystod yr wythnosau nesaf ac yn hysbysu'r cyhoedd dan law Facebook y Cyngor Cymuned.

**8.4 Glan-yr-Afon:**

Roedd Canclwm Japan yn broblem yn yr ardal hon. Ystyriwyd Glan yr Afon a'r ardal sy'n ymestyn at y Bont Werdd. Roedd cysylltiad gorffennol â'r Gofrestrfa Tir wedi dangos nad oedd y rhan fwyaf o'r tir dan sylw wedi'i gofrestru.

**O Ystafell Wen i Frynceiro:**

Wedi'i gofrestru mewn rhan.
Rhydd-ddaliad mewn rhan
Lesddaliad mewn rhan

**Cytunwyd i drafod ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf.**

**8.5 Camfa angen ei chyfnewid am un newydd,** ardal gyfagos i Safle Parc Teifi: Gofynnwyd am fanylion pellach gan y Cyngor Sir. Cytunwyd i drafod ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf.

**8.6 Dŵr yn crynhoi ger Cwm Meurig, Ffair Rhos: Heol Gefn: Cod Post: SY25 6AY:** i atgofio Cyngor Sir Ceredigion o'r Cais.

**8.7 Cinio Blynyddol: Cyngor Cymuned Ystrad Fflur**: i gymryd lle ar Nos Wener 17eg Chwefror 2023 yn y Teifi Inn, Ffair Rhos.

**8.8 Torri Glaswellt o fewn y Pentref dros fisoedd yr haf: i geisio datganiadau o ddiddordeb erbyn y Cyfarfod nesaf 16.03.2023.**

Ardal Glan-yr-Afon x3 toriad; Mynedfa'r Pentref tua 2 metr o'r arwydd ar brif fynedfa'r pentref gan gynnwys y Glas 5/6 toriad. O gwmpas Neuadd Pantyfedwenx 5/6 toriad (i gynnwys oddi fewn i'r ffens yr Ysgol Feithrin a'r Parc x 5//6 toriad ) Dyfynnu'n ôl y toriad. Dyddiad cau: Dydd Iau 16eg o Fawrth Canol Dydd. I'w harddangos ar FB, Barcud a Siop y Bentref.

9. GOHEBIAETH

**9.1 Copi o lythyr a anfonwyd gan Ben Lake AS** at ddisgyblion ac athawon yr Ysgol Feithrin y Bont parthed eu cyflawniad diweddar. Derbyniodd yr Ysgol Feithrin Adroddiad *Estyn* rhagorol yn ystod y misoedd diwethaf. Yn benodol, roedd yr ysgol feithrin wedi derbyn canmoliaeth ar hyrwyddo'r defnydd o'r awyr agored i ymestyn sgiliau'r disgyblion; bwriedir defnyddio'r arfer da fel model ar gyfer cyn-ysgolion tebyg eraill ar draws Cymru.

Yn ogystal cymeradwywyd y cyd-weithio rhwng aelodau'r tîm a gwaith papur effeithiol.

Cytunwyd i anfon llythyr o longyfarchiadau at Arweinydd yr Ysgol Feithrin, Pontrhydfendigiad, Gwen Davies.

**9.2** **Poster Cynllun Gweithredu Dementia Lleol:** Digwyddiadau Ymgysylltu: CS Ceredigion : i'w harddangos yn lleol.

**9.3** **Poster Cyfle Cymru:** yn wasanaeth sy'n helpu pobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau a/neu gyflyrau iechyd meddwl i gael gwaith, addysg neu hyfforddiant.

**9.4** **Ymgynghoriad Safle Ysbyty Newydd: GIG Cymru**: Cyfarfod ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned 2.03.2023 via Zoom. Parthed: **Datblygu Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd yn ne ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.** Bydd cyfnod 12 wythnos o ymgynghori'n cael ei lansio ar y 23.02.2023 i benderfynu pa safle y dylid lleoli'r ysbyty newydd: safleoedd arfaethedig: dau safle ger yr Hendy-Gwyn ar Daf ac un ger Sancler.

Gwybodaeth pellach: hduhb.nhs.wales/new-hospital-site

**9.5** **Bwrdd Iechyd Cymunedol Hywel Dda**: gwarchodwr annibynnol gwasanaethau'r GIG ar draws Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro ond bydd ganddo gyfrifoldebau newydd ac enw newydd o 1 Ebrill 2023 ymlaen.

Ymhlith y cyfrifoldebau newydd fydd gofal cymdeithasol a'r enw newydd fydd "Llais".

**9.6** **Llythyr gan gyn-Gynghorydd Cymuned John Jones** i gydnabod gyda diolch geiriau caredig y Cyngor Cymuned parthed ei gyfraniad yn ystod Gwasanaeth Sul y Cofio 13.11.2022. Bu'n Gynghorydd dros ystod o bron i 30 mlynedd ac yn barod i estyn help llaw eto'n y dyfodol.

Roedd Gwasanaeth Sul y Cofio yn agos i'w galon a'r dorf luosog yn dyst bod nifer o'r gymuned o'r unfarn.

Dymunodd yn dda i bawb yn gysylltiedig â'r Cyngor Cymuned.

**9.7** **Gohebieth Pellach: er gwybodaeth yn unig.**

**10. CYNLLUNIO**

**Dim Ceisiadau Cynllunio.**

**11. Cyllid**

**11.1** **Treuliau: Dathliadau Jiwbilî 2022** d/l C Hughes £39.93

**11.2** **Dathliadau Jiwbilî 2022**
**Grant £3,140**
**Arian a wariwyd cyn belled ar ddathliadau'r Jiwbilî** £2,884 heb TAW (manylion ar gael)
**Yn weddill £256**

**11.3** **Cyflog y Clerc Chwefror** 2023 £193.83

**11.4** **Treuliau'r Clerc** £34.26

**12. UFA**

**12.1** **I ofyn i Gyngor Sir Ceredigion am osod 20 conau ar y ffordd,** i gychwyn ar Stryd Teifi yng ngoleuni'r ddamwain ddiweddar yn ymwneud â phrif bont y Pentref.

**12.2** **Draen angen sylw – Bryn y Gors – Wernfelen:** i adrodd at sylw Cyngor Sir Ceredigion.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.35pm.**
**Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Iau 16eg Mawrth 2023 at 7pm.**

**Arwyddwyd/Dyddiad ------------------------------------------------------------------------------------------**